## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer trwyddedu personau sy'n ymwneud â bridio cŵn. Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau yn diffinio bridio cŵn at ddibenion adran 13(1) o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 (p. 45) ("y Ddeddf"). Canlyniad y dynodiad hwnnw, yn ddarostyngedig i griteria cymhwyso, yw bod rhaid i unrhyw berson sy'n dymuno bridio cŵn yng Nghymru gael trwydded gan ei awdurdod lleol o dan y Rheoliadau hyn. Mae'r gofyniad hwn yn disodli'r gofyniad i gael trwydded o dan Ddeddf Bridio Cŵn 1973 yng Nghymru.

Mae person sy'n bridio cŵn yng Nghymru heb drwydded o dan y Rheoliadau hyn yn cyflawni trosedd o dan adran 13(6) o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 ac yn agored i gael ei garcharu am gyfnod hyd at 6 mis, dirwy neu'r ddau. O dan adran 30 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 caiff awdurdodau lleol erlyn am unrhyw drosedd o dan y Ddeddf.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau yn pennu sut y gall person wneud cais i'r awdurdod lleol am drwydded ac mae'n pennu materion y mae'n rhaid i awdurdod lleol fodloni ei hunan ynglŷn â hwy wrth ystyried rhoi ac adnewyddu trwydded. Mae'n darparu y caiff awdurdod lleol godi ffioedd i ddiwallu unrhyw dreuliau rhesymol a dynnir wrth gyflawni'r swyddogaeth hon, ac wrth fonitro cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau hyn. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth gyflawni eu swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn.

Mae Rhan 4 yn pennu o dan ba amgylchiadau y ceir atal dros dro, amrywio neu ddirymu trwydded. Mae Rhan 5 yn darparu ar gyfer apelau yn erbyn penderfyniadau trwyddedu gan awdurdodau lleol.

Mae Rhan 6 yn darparu bod torri amod trwydded a roddir o dan y Rheoliadau hyn yn drosedd. Mae'n darparu pwerau i arolygwyr gymryd samplau a mynd i mewn i fangreoedd ac yn cymhwyso pwerau perthnasol, yn dilyn collfarn, sydd wedi eu cynnwys yn y Ddeddf. Mae'n darparu ar gyfer gorfodi'r Rheoliadau hyn gan yr awdurdodau lleol. Mae'n darparu bod trwyddedau a roddir o dan Ddeddf Bridio Cŵn 1973 yn parhau i gael effaith fel pe baent yn cael eu rhoi o dan y Rheoliadau hyn.

Mae Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn yn pennu'r amodau trwydded gorfodol y mae'n rhaid eu gosod ar bob trwydded a roddir gan awdurdod lleol.

Mae Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn yn diwygio Deddf Bridio Cŵn 1973 ac yn diwygio cyfeiriadau ati mewn 4 Deddf o ganlyniad i ddiddymu adran 1(1) o'r Ddeddf honno mewn perthynas â Chymru.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, paratowyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi ohono gan Lywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.